# IORWERTH ap BLEDDYN (bu farw 1111)

**Enw:** Iorwerth ap Bleddyn
**Dyddiad marw:** 1111
**Rhiant:** Bleddyn ap Cynfyn
**Rhyw:** Gwryw
**Maes gweithgaredd:** Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Thomas Jones Pierce

mab Bleddyn ap Cynfyn a chydreolwr Powys yn niwedd yr 11eg ganrif. Fel un o w r gwrogaeth Robert o Montgomery bu iddo ran yng ngwrthryfel 1102. Gan iddo wrthgilio methodd y gwrthryfel, ac wedi iddo fethu cael y cwbl o etifeddiaeth Montgomery yng Nghymru, fel y disgwyliai gael, parodd gryn helynt i'r Goron a chafodd ei garcharu yn 1103. Fe'i rhyddhawyd yn 1110 er mwyn iddo allu delio â'i neiaint, a lladdwyd ef gan un o'r perthnasau ieuainc hyn, sef Madog ap Rhiryd, y flwyddyn ddilynol. Ni bu iddo ddisgynyddion.

## Awdur

**Yr Athro Thomas Jones Pierce**, (1905 - 1964)

## Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Iorwerth ap Bleddyn

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q529874

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu